

## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Arbennig Rhithiol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2021.

**Yn Bresennol:** Cyngorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)  
Cyngorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr R Dew a Jeff Evans

**Hefyd yn  
Bresennol:** Neb

(10.30 o'r gloch - 12.10 o'r gloch)

|                    |  |
|--------------------|--|
| RHIF EITEM A PHWNC | <b>1. Datganiad o Ddiddordeb</b>                 |
| PENDERFYNIAD       | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. |

|                    |   |
|--------------------|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | <b>2. Cofnodion</b>   |
| PENDERFYNIAD       | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2021 fel cofnod cywir. |

|                    |   |
|--------------------|---|
| RHIF EITEM A PHWNC | <b>4. Adroddiad Perfformiad Blynyddol</b>   |
| PENDERFYNIAD       | <b>PENDERFYNWYD</b> cytuno ar Adroddiad Perfformiad 2020/21 fel adlewyrchiad o waith yr Awdurdod ac y dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol sef 31 Hydref, 2021. |

|                    |  |
|--------------------|--|
| RHIF EITEM A PHWNC | <b>5. Protocol Cyfarfodydd Aml-Leoliad (Hybrid)</b>  |
| PENDERFYNIAD       | <b>PENDERFYNWYD:-</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mabwysiadu'r ddogfen yn Atodiad 1 o'r adroddiad fel Protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid; a chaniatáu i swyddogion barhau â'r</li> </ul> |

|  |   |
|--|---|
|  | <p><b>gwaith o ganfod datrysiadau technegol er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd;</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bod unrhyw newidiadau i'r Protocol, sydd y tu hwnt i awdurdod presennol y Swyddog Monitro o dan adran 3.5.3.6.6 yn y Cynllun Dirprwyo, yn cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro, ond dim ond â chydysniad penodol pob Arweinydd Grŵp. Bydd unrhyw newidiadau heb gydsyniad o'r fath yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn gyntaf;</b></li> <li>• <b>Tra bod y cyfyngiadau Covid yn dal i fod mewn grym, bydd unrhyw gyfarfodydd/sesiynau briffio a sesiynau hyfforddi/datblygu'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol.</b></li> </ul> |
|--|---|

|                           |  |
|---------------------------|--|
| <b>RHIF EITEM A PHWNC</b> | <b>6. Adolygiad o Etholaethau Seneddol</b>   |
| <b>PENDERFYNIAD</b>       | <p><b>PENDERFYNWYD:-</b></p> <p><b>Nad oedd y cynigiad yn cael ei gadarnhau.</b></p> |